**Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru**
Llanelwedd
Llanfair-ym-Muallt
Powys LD2 3SY

**Royal Welsh Agricultural Society**
Llanelwedd
Builth Wells
Powys LD2 3SY



# Sicrhewch ddyfodol Sioe Frenhinol Cymru drwy ymateb i ymgynghoriad Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Gallai holl ysgolion Cymru fod ar agor yn ystod wythnos Sioe Frenhinol Cymru o 2026 os yw ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn cael rhwydd hynt.
Y cynnig yw bod tymor yr haf yn cael ei ymestyn o wythnos, sy'n golygu na fydd ysgolion wedi cau mewn pryd ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru. Credwn y gallai hyn beryglu dyfodol y Sioe.
NID yw CAFC yn erbyn yr egwyddor o addasu'r flwyddyn ysgol.
Mae'n gofyn i'r llywodraeth ailystyried eu dyddiadau gwyliau arfaethedig fel bod Sioe Frenhinol Cymru yng ngwyliau'r haf bob amser.

**Mae CAFC yn gofyn i'w holl gefnogwyr wrthwynebu'r ymgynghoriad cyn 12 Chwefror 2024.**

Nid ydym yn gallu darparu templed i gwblhau'r ymgynghoriad gan fod yna berygl na fyddai Llywodraeth Cymru yn cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad fel ymateb unigol petai ar dempled. Felly, defnyddiwch eich geiriau eich hun i ymateb os gwelwch yn dda. Gellwch ddefnyddio eich barn eich hun, neu rai o'r pwyntiau a ganlyn neu gymysgedd o'r ddau. Ond cofiwch ddefnyddio eich geiriau eich hun da chi. Mae'r ddolen goch ganlynol yn mynd â chi i'r ymgynghoriad. Fe welwch chi fod sawl ffordd o ymateb. 'Does dim rhaid ichi ateb popeth yn yr holiadur ar-lein. Efallai yr hoffech ysgrifennu eich paragraff eich hun yn unig yn amlinellu'ch gwrthwynebiadau a chyflwyno hwnnw trwy e-bost neu'r post. Mae'r cyfeiriadau wedi'u darparu yn y ddolen goch yma.

**strwythur-y-flwyddyn-ysgol | LLYW.CYMRU**

**Pwyntiau posibl i'w cynnwys.**

- Mae'r sioe yn uchafbwynt i lawer ar draws Cymru.
- Mae'n ŵyl ddiwylliannol fawr ac mae'n rhoi hwb o tua £40 miliwn i'r economi bob blwyddyn. Mae bron £10 miliwn o wariant gan ymwelwyr yn ystod y sioe.
- Gyda'n agos at chwarter miliwn o ymwelwyr, ystyrir mai Sioe Frenhinol Cymru yw'r sioe amaethyddol fwyaf o'i math yn Ewrop ac mae'n rhoi Cymru ar y map.

- Byddai'r newid arfaethedig hwn yn golygu na chaiff pobl ifanc y cyfle i ddod i'r sioe yn gyfreithlon, i gystadlu, dysgu, ac arddangos eu sgiliau.
- Mae arolygon ymwelwyr yn dangos bod 68% o ymwelwyr yn dod i'r sioe gyda'u teulu.
- Mae 70% o'n haelodau yn rhan o grwpiau teuluol.
- Byddai peidio â chaniatáu i deuluoedd ddod yn ergyd fawr i'n gwerthoedd a'n hethos.

**Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru**
Llanelwedd
Llanfair-ym-Muallt
Powys LD2 3SY

**Royal Welsh Agricultural Society**
Llanelwedd
Builth Wells
Powys LD2 3SY



- Mae cyfrifiadau rhagarweiniol yn dangos y byddai'r newidiadau'n arwain at golled incwm o £1 miliwn+ (gwerthiannau is wrth y giât, aelodaeth, a refeniw gwersylla.)
- Byddai nifer mynychwyr is yn effeithio hefyd ar fasnach arddangoswyr ac arlwywyr a'r busnesau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol sy'n elwa ar y sioe.
- Mae Sioe Frenhinol Cymru yn hurio dros 50 o fysiau ysgol ar gyfer y cyfleuster parcio a theithio bob blwyddyn. Os yw ysgolion yn dal ar agor yn ystod wythnos y sioe, ni fydd y bysiau hyn ar gael.
- Mae'r Gymdeithas yn dibynnu ar bron 1,000 o wirfoddolwyr. Mae llawer yn deuluoedd ac athrawon na fyddai'n gallu dod petai'r cynigion yn dod yn realiti.

- Rydym yn falch fod Sioe Frenhinol Cymru yn arwain wrth ddathlu ein diwylliant unigryw a'n hiaith.
- Nid yw dwy ran o dair o ymwelwyr Sioe Frenhinol Cymru yn gweithio ym myd amaeth.
- Mae Sioe Frenhinol Cymru yn sylfaenol bwysig i hyrwyddo'r diwydiant amaethyddol ac i bontio'r rhaniad rhwng cymunedau trefol a gwledig.

- Byddai heriau ymarferol enfawr petai'r Llywodraeth yn gorfodi'r sioe i newid ei dyddiadau.
- Byddai symud i wythnos neu ddwy yn ddiweddarach yn effeithio ar ddigwyddiadau amaethyddol mawr eraill ac ar yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Mae llawer o'n contractwyr a'n cyflenwyr yn gweithredu yn y ddau ddigwyddiad a byddai hyn yn effeithio'n ddifrifol ar eu hargaeledd.
- Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu byrhau gwyliau'r haf mewn dau gam. Byddai'r cam cyntaf yn gweld y gwyliau'n lleihau o chwe wythnos i bump, gyda'r nod terfynol o'u lleihau i bedair. Pe bai Sioe Frenhinol Cymru i newid dyddiadau, ai unwaith neu ddwywaith y byddem yn symud?

**Mae CAFC yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru yn benderfynol o orfodi hyn drwodd hyd yn oed er ei fod wedi'i gondemnio'n eang gan undebau'r athrawon, cynrychiolwyr y diwydiant ymwelwyr a'r gymuned ffermio. Mae llawer o'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r grwpiau hyn wedi cyfarfod ac yn cytuno mai'r cam cyntaf i atal y diwygio hwn yw cael cymaint o bobl ag sy'n bosibl i ymateb i'r ymgynghoriad.**
**Rhowch wybod i Lywodraeth Cymru da chi ba mor werthfawr yw Sioe Frenhinol Cymru inni i gyd a'i bod yn hanfodol ei chynnal yn ystod gwyliau haf ysgolion.**

**[strwythur-y-flwyddyn-ysgol | LLYW.CYMRU]**
**Daw'r ymgynghoriad i ben ar 12 Chwefror.**
**Diolch.**